# BWLETIN Y FARCHNAD HCC

MEHEFIN 2017

**Mae'r data diweddaraf gan Defra am gynnyrch gwartheg a defaid yn y DU wedi dangos bod lladd-dai wedi prosesu llai o anifeiliaid mewn bron pob categori yn ystod pedwar mis cyntaf 2017 mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Yr unig eithriad i hyn yw'r cynnydd yn nifer yr ŵyn dethol. Roedd hyn i'w ddisgwyl am fod mwy o wyn wedi cael eu cadw'n hirach ar y ffermydd. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y data hwn yn fanylach ac yn ystyried beth allai ei olygu i'r farchnad yn ystod y misoedd nesaf**

Roedd trwybwn y gwartheg dethol yn lladd-dai'r DU yn ystod pedwar mis cyntaf 2017 yn agos i 650,000 o anifeiliaid, sef bron 18,000 yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd a 24,000 yn llai nag yn 2015. Dylid nodi bod Defra wedi newid y ffordd mae'n casglu data o fis Chwefror 2016; erbyn hyn mae'n seiliedig ar fis calendr yn hytrach na mis ystadegol. Byddai'r llai o gyflenwad yn un o'r rhesymau am y prisiau uwch eleni, wrth i broseswyr gystadlu am anifeiliaid. O fewn y cyfanswm, cafwyd gostyngiad yn nifer y bustych, heffrod a theirw ifainc o'r naill flwyddyn i'r llall. Bustych oedd yr anifeiliaid mwyaf niferus unwaith eto, sef dros hanner y cyfanswm. Heffrod oedd 38.5 y cant o gyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd, ac roedd llai na naw y cant yn deirw ifainc. Mae hyn yn agos i hanner y cant yn llai na'r llynedd am fod rhai proseswyr wedi rhoi'r gorau i brynu'r anifeiliaid hyn.


Yn debyg i'r rhan fwyaf o 2016, mae pwysau cyfartalog carcasau'r gwartheg dethol oddeutu 350kg eleni. Mae pwysau cyfartalog bustych yn 371kg, sef 6kg yn ysgafnach nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac mae pwysau cyfartalog heffrod wedi cynyddu 3kg i 332kg. Roedd pwysau cyfartalog teirw ifainc yn 316kg, sef yr un fath â'r llynedd. Un o'r dylanwadau pwysicaf ar y farchnad gig eidion y llynedd oedd y pwyslais ar garcasau ysgafnach a sylw manylach i'r proffil oedran gan y rhan fwyaf o broseswyr. Mae modd gweld hyn wrth edrych ar bwysau cyfartalog teirw ifainc yn y cyfnod Ionawr-Ebrill 2015 pan oedd dros 340kg.

Cafodd 206,300 o wartheg llawn dwf a theirw eu prosesu yn ystod pedwar mis cyntaf eleni, sef gostyngiad o chwech y cant (neu 13,500) mewn cymhariaeth â 2016. Dylid nodi bod nifer y gwartheg llawn dwf y llynedd yn uchel am fod llawer o gynhyrchwyr llaeth wedi ymateb i'r prisiau llaeth siomedig drwy gael gwared â gwartheg.

Cafodd 3.91 miliwn o ŵyn dethol eu prosesu hyd yma yn 2017, sef 165,300 yn fwy nag yn 2016. Anfonwyd llai o ŵyn i'r lladd-dai ym mis Ionawr nag yn ystod y mis cyfatebol y llynedd, ond yn ystod y tri mis canlynol gwelwyd cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Roedd y nifer ym mis Ebrill, sef bron 995,000, yn 20 y cant yn uwch na'r llynedd; un rheswm am hyn oedd bod gwyliau banc ychwanegol ym mis Ebrill 2016 am fod y Pasg yn hwyrach. Dywedir bod y carcasau yn 2017 yn drymach na'r llynedd; roedd y pwysau cyfartalog yn ystod pedwar mis cyntaf eleni yn 20.1kg.

Ac ystyried bod arolwg Mehefin y llynedd ar gyfer y DU yn dangos cynnydd o bron i ddau y cant yn nifer yr ŵyn (16,840 miliwn), ymddengys fod y trwybynnau uwch yn ystod y misoedd diwethaf wedi hybu pris ŵyn tymor newydd eleni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cadwyd ŵyn o'r flwyddyn flaenorol ar y ffermydd tan fisoedd Mai a Mehefin, a chafodd hyn effaith ar brisiau. Fodd bynnag, am fod prisiau ŵyn y gwanwyn wedi gwella yn ystod yr wythnosau diwethaf, gellir tybio na fu hyn yn gymaint o broblem eleni.

### Mewnbwn ŵyn dethol yn lladd-dai'r DU




Roedd trwybynnau defaid llawn dwf yn ystod pedwar mis cyntaf 2017 yn 492,300, sef deg y cant yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Fel arfer, byddai gostyngiad o'r fath mewn niferoedd yn golygu gwell prisiau yn y farchnad, ond hyd yma ni ddigwyddodd hyn eleni. Un rheswm posibl am hyn yw na chafwyd y prisiau uwch arferol am ŵyn yn ystod misoedd cyntaf eleni, pan oedd mwy o ŵyn ar werth.

Fel rhan o ymgyrch genedlaethol i helpu cynhyrchwyr baratoi eu busnesau ar gyfer galw defnyddwyr y dyfodol wrth i farchnadoedd y byd baratoi am Brexit, anogir ffermwyr Cymru i fynychu cyfarfod 'Masnach mewn marchnadoedd byd eang' gyda Cyswllt Ffermio a HCC yn y lleoliadau canlynol:


- Ivy Bush, Caerfyrddin, 6 Mehefin
- Neuadd Glantwymyn ger Machynlleth, 13 Mehefin
- Gwesty'r Eryrod, Llanrwst, 20 Mehefin
- Marchnad Da Byw Aberhonddu, 27 Mehefin

**Mae modd cofrestru a chael mwy o wybodaeth ar-lein:**
https://wales.business-events.org.uk/en/events/trade-in-the-global-marketplace/

# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Mae prisiau gwartheg dethol yn y marchnadoedd da yng Nghymru a Lloegr wedi wynebu cyfnod o sefydlogrwydd cymharol yn ystod y mis diwethaf gydag unrhyw newid yn y pris yn un bach; fodd bynnag, mae'r fasnach yn dal dipyn yn well na'r hyn a welwyd flwyddyn yn ôl. Yn yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 27 Mai, roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yn 188.2c/kg, sef 0.8c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol ond tua 13.2c yn fwy nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Oddi mewn i'r pris cyfartalog, roedd prisiau bustych, heffrod a theirw ifainc, yn ôl eu trefn, yn 187.1c, 197.1c a 178.4c. Mae'n bosibl fod y tywydd cynnes a gafwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi rhoi hwb i'r fasnach cig eidion wrth i ddefnyddwyr geisio manteisio ar y tywydd braf.

Mae'r fasnach gwartheg dethol pwysau marw wedi parhau i ddangos cynnydd cyson yn ystod y mis diwethaf, a'r pris bron â chyrraedd 350c/kg wrth i broseswyr chwilio am gyflenwad digonol. Yn yr wythnos yn diweddu 20 Mai cynyddodd y pris cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr 1.1c i 349.9c/kg.  Roedd nifer yr anifeiliaid ar gyfer yr wythnos yn debyg i'r wythnos flaenorol, sef 11,570. Felly, mae pris bustych yn 40c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Gwelwyd yr un fath o batrwm gyda heffrod a theirw ifainc, sef gwell prisiau a chynnydd yn y niferoedd o'r naill wythnos i'r llall. Roedd prisiau heffrod pwysau marw yng Nghymru a Lloegr yn 352.2c/kg, sef cynnydd o hanner ceiniog. Roedd prisiau cyfartalog teirw ifainc ar gyfer yr wythnos yn diweddu 20 Mai yn 336.0c/kg, 2.1c yn uwch na'r wythnos flaenorol a 15c yn uwch na'r mis blaenorol. Roedd pris cyfartalog buchod difa pwysau marw yn 244.0c/kg.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Mae prisiau ŵyn wedi gwella'n sylweddol yn ystod y mis diwethaf gyda'r fasnach pwysau byw ar hyn o bryd bron 44c yn uwch nag oedd yn yr un cyfnod y llynedd. Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 27 Mai, roedd Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) ŵyn tymor newydd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 244.9c/kg, sef  6.9c yn uwch na'r pris cyfartalog yr wythnos flaenorol. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n gyson yn ystod yr wythnosau diwethaf ac erbyn hyn mae mwy o lawer o ŵyn tymor newydd yn cael eu gwerthu na'r llynedd. Mae'r ffigurau ar gyfer yr wythnos ddiwethaf yn dangos bron 22,500 o ŵyn tymor newydd a 4,600 o ŵyn hen dymor.

Mae'r fasnach ŵyn pwysau marw hefyd wedi gwella'n sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn yr wythnos yn diweddu 20 Mai roedd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 480.6c/kg, sef yr wythnos gyntaf pan na fyddai ond ŵyn tymor newydd yn y cyfartaledd. Felly, mae prisiau bron 67c yn uwch na'r pris pwysau marw a gafwyd yn ystod yr wythnos gyfatebol yn 2016.  Y tro diwethaf y gwelwyd prisiau tebyg yn ystod yr wythnos dan sylw oedd yn 2013; yn ystod y blynyddoedd diwethaf dylanwadwyd ar brisiau ŵyn tymor newydd gan gyfradd gyfnewid anffafriol a nifer sylweddol o ŵyn hen dymor .

Mae prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi parhau i wella ychydig yn ystod y mis diwethaf wrth i famogiaid cryfach gael eu cymryd i'r farchnad, ynghyd â dechreuad Ramadan. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 27 Mai, roedd y pris yn £60.00 yr anifail, sef  50c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol,  a thua £2.80 yn uwch nag yn ystod wythnos olaf ym mis Ebrill. Mae hyn yn golygu fod y prisiau'n £4.30 yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Parhaodd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) i wella am fis arall am nad oedd digon o foch i ateb y galw. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 13 Mai, roedd y pris cyfartalog yn161.9c/kg, sef dros hanner ceiniog yn uwch  nag yn yr wythnos flaenorol. Hon oedd yr unfed wythnos ar ddeg o dwf, sy'n golygu fod y prisiau dros 44c yn uwch nag yn yr un cyfnod y llynedd.  Y tro diwethaf i brisiau fod mor uchel â hyn oedd ym mis Awst 2014.

Yn yr wythnos yn diweddu 20 Mai roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 159.2c/kg, sef 0.8c yn uwch na'r wythnos flaenorol, a bron 43c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Yn dilyn patrwm a welwyd ers dechrau'r flwyddyn, amcangyfrifir bod nifer y moch a gafodd eu marchnata yn llai na'r llynedd, ac roedd hynny'n un rheswm am y prisiau uwch eleni. Yn ystod pedwar mis cyntaf 2017, lladdwyd 2.8 miliwn o foch mewn lladd-dai ym Mhrydain, sef bron 10% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016.

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Mai, roedd pris cyfartalog perchyll 30kg yn £59.78, sef bron 40c yn uwch  nag yn yr wythnos flaenorol. Yr un fath â phrisiau moch pwysau marw, mae prisiau perchyll wedi cynyddu'n gyson eleni ac yn yr wythnos ddiweddaraf cafwyd y prisiau gorau ers pum mlynedd. Yn ystod yr un wythnos roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.78, sef 40c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â Hybu Cig Cymru ar 01970 625050 neu e-bostiwch info@hccmpw.org.uk